

Rhwydwaith Arddangos

Fferm Pentre: Gwerthuso effeithiolrwydd tyfu ysgall y meirch ar gyfer systemau defaid yng Nghymru

Nod y prosiect tair blynedd hwn ar safle arddangos Pentre yw pennu effaith cyflwyno ysgall y meirch i'r borfa ar berfformiad wŷn, ansawdd y borfa a'r diet a pharasitiaid mewnl.


Cafodd ardal oddeutu 1.82 hectar ei ail-hadu gyda chymysgedd safonol yn seiliedig ar rygwelt gan gynnwys meillion, a chafodd ardal arall o 1.76 hectar ei ail-hadu gyda chymysgedd glaswellt gan gynnwys ysgall y meirch. Cafodd yr wŷn eu rhannu'n grwpiau i bori'r ddwy ardal, a chyflwynwyd system bori cylchdro.

Roedd y data a gasglwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect yn cynnwys:

- Profi wŷn yn rheolaidd i bennu eu cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG)
- Profi gwaed sampl o'r wŷn o bobl grŵp ar ddechrau a diwedd y tymor pori i fonitro lefelau cobalt, copr a seleniwm
- Ansawdd a chyfaint y borfa
- Cyfrif wyau ysgarthol i fonitro baich llyngyr mewnl.


Roedd cynnydd pwysau byw dyddiol cyfartalog yr wŷn dros y cyfnod pori yn uwch ar gyfer yr wŷn a oedd yn pori'r borfa a oedd yn cynnwys ysgall y meirch (193g/dydd) na'r rhai a fu'n pori'r borfa rhygwelt (168g/dydd), ond nod oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol.

Ffigwr 1. Pwysau yn arborfeydd ysgall y meirch a meillion yn ystod mis Medi 2020



Roedd canlyniadau'r profion gwaed cychwynnol yn dangos crynodiad boddhaol o gobalt (Fitamin B12), copr a seleniwm (GSH-Px) ar gyfer y ddwy driniaeth ar ddechrau'r cyfnod pori. Roedd profion gwaed pellach a gynhaliwyd ar ddiwedd y cyfnod pori yn dangos crynodiad copr uwch ar gyfer yr wŷn a oedd yn pori'r borfa a oedd yn cynnwys ysgall y meirch (Ffigwr 2). Bydd sylw'n cael ei roi er mwyn sicrhau nad yw lefelau copr cynyddol yn arwain at broblemau iechyd yn yr ail flwyddyn.

Ffigwr 2. Crynodiadau copr cyfartalog yn y gwaed ($\mu\text{mol/l}$) ar ddechrau a diwedd y tymor pori.



Cefnllan: Rheoli'r newid o wartheg sugno i gig eidion o'r fuches odro

Nod y prosiect yw archwilio dichonoldeb newid o fenter draddodiadol sy'n cadw buchod sugno i fagu, tyfu a phesgi lloi llaeth Angus croes a brynir i mewn, gyda'r nod o gyflawni hyn ar system gyda chostau isel yn seiliedig ar laswellt a phorthiant. Yn ogystal, bydd monitro perfformiad y lloi a sicrhau'r perfformiad gorau, ynghyd â monitro a rheoli costau, yn agwedd allweddol ar y prosiect.

Bydd lloi yn cael eu pwysu'n rheolaidd drwy gydol y prosiect. Pan gawsant eu pwysu ar 31 Awst 2020, roedd y 99 lloi iau (a fyddai oddeutu 7-8 mis oed) yn pwysu **245kg** ar gyfartaledd (maent wedi magu **0.8-0.9kg/dydd** ar gyfartaledd ers cyrraedd y fferm ar ddiwedd Ebrill), ac roedd y 36 lloi hŷn yn pwysu **470kg** ar gyfartaledd (gan fagu **1.2kg/dydd** ar gyfartaledd).

Ar 29 Medi, bu Hefin Richards yn ymweld â fferm Cefnllan i greu dogn gaeaf ar gyfer y lloi pan fyddant yn cael eu cadw dan do tua diwedd mis Hydref. Roedd prif ganlyniadau'r ymweliad yn cynnwys:

- Roedd canlyniadau'r dadansoddiad silwair yn dda iawn (gyda ME o 11.73) a dylai gefnogi lefel dda o gynnydd pwysau byw dyddiol trwy gydol eu cyfnod dan do.
- Cafodd cymysgedd unigol ei lunio ar gyfer pob buwch – 2kg ar gyfer gwartheg sy'n tyfu a 5kg ar gyfer gwartheg i'w pesgi.
- Bydd manyleb mwynau'n cael ei lunio – gan gynnwys sinc a biotin wedi'u diogelu i annog carnau iach, o ystyried pa mor anodd gall cyflwyno lloiau delltlog ei fod ar y traed.
- Ystyried cynnwys burum byw 'Digestaid' – mae hyn yn helpu i dreulio ffibr ac i ddefnyddio'r porthiant. Mae'n costio llai na 5c/dydd ac mae wedi profi'n llwyddiannus o ran DLWG ac effeithlonrwydd porthiant.



Ffigwr 3. Lloi ar y system bori cylchdro ar fferm Cefnllan.



Ffigwr 4. Lloi hŷn ar fferm Cefnllan cyn dod i mewn dros y gaeaf.

Graig Olway: Canolbwyntio ar y traed – lleihau cloffni yn y fuches odro

Mae cloffni yn dal i fod yn broblem iechyd bwysig ar ffemmydd llaeth, ac mae'n cael effaith negyddol ar berfformiad ac iechyd y gwartheg. Ar fferm Graig Olway, mae lleihau lefelau cloffni a gwella cysur y fuwch wedi cael eu nodi fel dau o brif nodau'r fferm er mwyn gwella lles a chynyddu cynnyrch llaeth. Prif amcan y prosiect yw pennu cywirdeb dermatitis digidol. Rhoddwyd sgôr symudedd i bob buwch ynghyd â sgôr dermatitis ar ddechrau'r prosiect (mis Ionawr).

Er ei bod wedi bod yn anodd lleihau lefelau cloffni yn ystod misoedd cyntaf y prosiect, mae rheolaeth ofalus a chyflwyno'r newidiadau a argymhellwyd gan arbenigwr y prosiect wedi arwain at leihad pendant yn ystod y rownd ddiweddaraf o sgorio symudedd (14 Tachwedd). Mae nifer yr achosion newydd wedi lleihau ac mae'r achosion newydd o gloffni yn dangos arwyddion cynnar iawn o gleisio. Mae gwartheg cronig yn gwella'n dda ac nid oes unrhyw achosion cronig ychwanegol wedi cael eu cofnodi ers yr haf. Un achos o ddermatitis digidol gweithredol sydd ar y fferm, gan ddangos bod dermatitis digidol hefyd yn cael ei reoli'n dda ar hyn o bryd. Ym mis Medi, roedd bron i 1 o bob 3 o fuchod yn dangos arwyddion o gloffni. Erbyn hyn, mae'r ffigwr yn un o bob wyth, sy'n welliant sylweddol.

Bydd rheoli'r fuches yn ofalus yn parhau a bydd gwaith yn cael ei wneud i sgorio eto ym mis Rhagfyr er mwyn asesu cloffni.

Gweminarau



Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

25/08/2020: Opsiynau cyfnewid y ddiadell

Bu'r ymgynghorydd Rhidian Jones yn trafod gwahanol opsiynau cyfnewid y ddiadell gan ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Manteision magu stoc cyfnewid eich hunain
2. Costau diadell agored
3. Rôl bywiogrwydd hybrid
4. Arbrofion a wnaed i gymharu gallu mamol mamogiaid rhwng gwahanol fridiau
5. Effeithlonrwydd mamogiaid

MYNYCHODD

18

BUSNESY WEMINAR HON

28/10/2020: Effeithlonrwydd pesgi ŵyn

Gan fod marchnadoedd cig oen ar gyfer 2021 yn dal i fod yn ansicr, a bod sicrhau bod ŵyn yn cael eu pesgi'n effeithlon dros y misoedd nesaf mor bwysig ag erioed, ymunodd Cyswllt Ffermio gyda'r ymgynghorydd defaid, Lesley Stubbings a John Richards o Hybu Cig Cymru i gyflwyno gweminar yn canolbwyntio ar besgi ŵyn. Bu Lesley yn trafod y risgiau a phrisiau cyfnewidiol, yn ogystal ag amlygu'r prif ffactorau sy'n arwain proffidoldeb ar gyfer pesgi ŵyn dros y gaeaf megis ffactorau iechyd, ansawdd porthiant, a geneteg. Bu John yn trafod tueddiadau cyffredinol o ran prisiau ŵyn, gwerthiannau allforio ac effaith COVID-19 ar werthiannau.

MYNYCHODD

84

BUSNESY WEMINAR HON

EIP



Gweithredu rheolaeth ar lefel uwch ar faethiad yn y diwydiant defaid yng Nghymru

Gan weithio gyda 12 ffermwr defaid yng Ngogledd Cymru, bu'r milfeddyg, Joseph Angell, yn ymchwilio a fyddai canolbwyntio ar reoli maeth mamogiaid yn gwella cynhyrchiant cyffredinol y diadelloedd. O ganlyniad i weithio gyda'r diadelloedd hyn, cafodd pum maes eu nodi lle byddai gwelliannau sylweddol yn gallu effeithio ar berfformiad y ddiadell. Y pum maes oedd:

- Argaeledd porthiant
- Monitro parasitiaid
- Cyflenwi elfennau hybrin
- Sgorio Cyflwr y Corff
- Canfod clefydau

Cliciwch [yma](#) i ddarllen pamfflet gyda gwybodaeth bellach.

Gwasanaeth Cynghori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth drwy gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cynghori o fewn y cyfnod hwn:



Derbyniodd 10 unigolyn gefnogaeth un i un drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cynghori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 2 grŵp a oedd yn cynnwys 6 unigolyn gefnogaeth drwy Gategoriâu Da Byw y Gwasanaeth Cynghori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarpariaeth y Gwasanaeth Cynghori hwn:

"Defnyddiol er mwyn creu cynllun at y dyfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y fuches, ac i safoni gweithdrefnau."

"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Cafodd pobeth ei egluro'n dda, ac mae gen i gynllun busnes da a chllir erbyn hyn."

Grwpiau Trafod

Grŵp Trafod Defaid Sir Fynwy – Paratoi ar gyfer Hyrddda

Dyma'r cyfarfod cyntaf ar gyfer grŵp trafod defaid Sir Fynwy, ac oherwydd Covid-19, cynhaliwyd y cyfarfod yn ddigidol dros zoom. Yr ymgynghorydd sy'n gweithio gyda'r grŵp yw Phillipa Page a drafododd 'Paratoi ar gyfer hyrddda'. Dechreuodd y cyfarfod drwy annog yr aelodau i dddod i adnabod ei gilydd ac i rannu manylion am eu ffermydd a'u systemau ffermio gyda'r grŵp. Bydd y grŵp yma'n gweithio gyda'i gilydd am 18 mis, felly mae dod i adnabod ei gilydd yn bwysig iawn.

Gellir dadlau mai paratoi ar gyfer hyrddda yw'r adeg bwysicaf o'r flwyddyn i ffermwyr defaid. Mae'n hanfodol bod y defaid yn iach ac yn y cyflwr corff priodol er mwyn troi at yr hwrdd, er mwyn sicrhau'r canran sgorio a'r niferoedd ŵyn gorau posibl ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cyn y cyfarfod, gofynnwyd i aelodau'r grŵp wyllo fideo byr a baratowyd gan Flock Health. Roedd y fideo yn dangos iddynt sut i sgorio cyflwr corff mamogiaid a sut i adnabod i ba gategoriâu maen nhw'n perthyn (ar raddfa o 1-5), ac i grwpio mamogiaid i grwpiau ffit, tew, tenau ar gyfer hwrdd a tenau ar gyfer difa. Yna, bu'r grŵp yn trafod sut mae sgorio cyflwr corff mamogiaid yn gyson yn helpu'r ffermwr i wneud penderfyniadau doeth, rheoli perfformiad y ddiadell, y dulliau rheoli gofynnol ar gyfer pob grŵp a'r goblygiadau ar ffrwythlondeb y ddiadell.

Yna, cyflwynwyd y grŵp i'r adnodd Mesur i Reoli a'r buddion y mae meincnodi yn gallu eu cynnig ar gyfer busnesau, gan gynnwys:

- Gallu cymharu perfformiad y busnes o flwyddyn i flwyddyn
- Gallu cymharu gyda busnesau tebyg
- Adnabod unrhyw wendidau neu lle mae costau'n rhy uchel

Bydd yr ail gyfarfod yn trafod meincnodi mewn mwy o fanylder, yn ogystal â chanolbwyntio ar reoli llyngyr yr iau.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn cynhyrchu erthyglau ar amrywiaeth o bynciau.

Mae enghreifftiau o erthyglau sy'n ymwneud â'r thema hon yn cynnwys:

- GODRO ROBOTIG A LLES GWARTHEG
- NWYON TŶ GWYDR A GYNHYRCHIR MEWN SYSTEMAU MAGU MOCH: RHAN 1 A RHAN 2
- TECHNOLEGAU DA BYW MANWL GWIRYNY SECTOR MOCH
- ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR AC EFFAITH AMGYLCHEDDOL Y DIWYDIANT DOFEDNOD: RHAN 1 A RHAN 2

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- CLEFYD JOHNE MEWN GWARTHEG
- IECHYDYR HWRDD
- FIRWS SCHMALLEMBERG (SBV)
- YMWRTHEDD GWRTHFICROBAIDD (AMR)

Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Defnyddio Dip Defaid yn ddiogel	41
DIY AI	34
Defnyddio Meddyginiaeth Filfeddygol yn Ddiogel	30
Rheoli Cnofilod ar y Fferm	13
Trimio Traed Gwartheg	12

